

Creu Coetir yn Brownhill

Cyflwyniad

Prynodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) y safle yn Brownhill ar y farchnad agored, gyda'r bwriad o greu coetir ym mis Chwefror 2022. Mae hyn yn rhan o raglen CNC i greu coetir newydd, i wneud iawn am goetir sy'n cael ei golli'n barhaol o Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru (WGWE) a chyflawni ymrwymïadau polisi i gynnal y WGWE.

Cyhoeddwyd y safle fel coetir coffa gan Brif Weinidog Cymru, Mark Drakeford. Dyma ran o brosiect gan Lywodraeth Cymru i greu coetir i goffáu'r rheiny sydd, yn anffodus, wedi colli eu bywydau yn ystod argyfwng Covid 19, a'r ffordd yr ymatebodd cymdeithas yng Nghymru i'r argyfwng. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw bod coetiroedd coffa yn cael eu creu a'u gwneud yn hygyrch i'r cyhoedd ledled Cymru.

Enw


Enw teitl y tir yw 'Ystad Brownhill, Rhan o' (*Brownhill Estate, Part of*) ac mae'r tir yn agos at fferm Brownhill. Gwelir yr enw hwn ar gofnodion hanesyddol sy'n dyddio o oddeutu 1841. Nid oes enw Cymraeg ar gyfer Brownhill. Gwyddom fod y tir, yn hanesyddol, yn rhan o ystad gyfagos Abermarlais, gyda llawer o'r coed hynod a dyluniad parcdir y dirwedd yn dyddio'n ôl i'r cyfnod hwn. Mae'r enw 'Abermarlais' yn ymddangos mewn cofnodion hanesyddol o 1381. Mae afon Marlais hefyd yn croesi'r goedlan goffa. Ein hawgrym felly yw y caiff y goedlan ei henwi fel a ganlyn:

Coedwig Abermarlais

Coedlan Goffa


Cefnogir hyn gan yr adborth a gawsom o'n digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus ac mae'n bodloni'n dyletswyddau statudol o ran enwau lleoedd hanesyddol.

Lleoliad y Safle



Mae'r safle yn gorwedd yn uniongyrchol i'r Dwyrain o'r A40 rhwng pentrefi Llangadog a Llanwrda, gyda'r afon Tywi (Tywi) yn croesi'r safle o'r Gogledd i'r De. Mae llinell Rheilffordd Calon Cymru yn ffurfio ychydig o ffin orllewinol y safle.

Mae tref Llanymddyfri tua 5.5 milltir ar hyd y A40 i'r gogledd, mae Llandeilo tua 6 milltir i'r de.



Cyd-destun y Safle

Mae'r safle yn 94ha ac mae'n dir gorlifdir gwastad yn bennaf.

Mae Gogledd y safle wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer silwair/gwair a phori, tra bod y gweddill yn tueddu i fod yn dir gwlypach ac yn ddiweddar fe'i defnyddiwyd ar gyfer pori ac mae'n cynnwys porfa parhaol, gydag ychydig ohono'n frwynog. Mae'r parcel tir i'r dwyrain o'r afon wedi bod yn fraenar i raddau helaeth yn ddiweddar. Mae'r caeau i'r gorllewin o'r afon wedi cael eu draenio'n hanesyddol.

Rhennir y caeau gan wrychoedd, rhai ohonynt yn aeddfed a rhai wedi'u plannu'n fwy diweddar, gyda gwrychoedd aeddfed ac hyn a choed mewn cae (Derw yn bennaf). Mae gweddill y gwrychoedd yn dilyn patrwm y caeau hanesyddol i raddau helaeth ond heb eu rheoli'n ddiweddar, ac fe gollwyd rhai ffiniau caeau hanesyddol i ehangu'r caeau.

I nodi, gwerthwyd y tir fel pum lot, ac o'r rhain fe sicrhaom ni dri. Roedd y ddau lot arall yn cynnwys cyfran uwch o dir amaethyddol mwy cynhyrchiol. Roedd y tri a sicrhawyd gennym i gyd yn cynnwys cyfran o dir mwy garw a/neu lai hygrych, llai deniadol at ddibenion amaethyddol.

Cyn caffael, cynhaliwyd gwiriad cyfyngiadau llawn ynghyd ag asesiad safle gan arbenigwyr CNC. Mae'r wybodaeth hon a'r wybodaeth a gesglir drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac ymgynghoreion statudol yn llywio'r wybodaeth a nodir o dan bob un o'r penawdau isod. Mae'r penawdau'n adlewyrchu'r elfennau o reoli coedwigoedd cynaliadwy a nodir gan Safon Goedwigaeth y DU (UKFS). Bydd y coetir hwn yn cael ei ddylunio a'i reoli yn unol â'r UKFS a'i ardystio trwy Safon Sicrwydd Coetir y DU (UKWAS) ynghyd ag Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru (WGWE) ehangach.

Ecoleg a Bioamrywiaeth

Mae gan y safle glytwaith o fathau o gynefin gan gynnwys cloddiau graeanog, glaswelltir corsiog, glaswelltir niwtral, coetir gwlyb, gwrychoedd aeddfed, coed hynafol, cyrsiau dŵr o wahanol feintiau a dŵr llonydd. Mae'r cynefinoedd lled-naturiol sy'n bresennol yn brin yn yr ardal hon o ddyffryn Tywi ac os cânt eu rheoli'n gydnaws, mae ganddynt botensial mawr i gynnal bioamrywiaeth gyfoethog a chyfrannu'n sylweddol at wydnwch ecosystemau yn yr ardal leol.

Mae cofnodion canolfannau cofnodion lleol yn dangos bod dyfrgwn wedi'u gweld ar y cyrsiau dŵr yn yr ardal gyfagos ac mae tystiolaeth bod dyfrgwn yn defnyddio'r safle i chwilota am fwyd ond dim cofnodion na thystiolaeth o fridio. Mae cofnodion canolfannau cofnodion lleol yn dangos bod cornchwiglod wedi'u gweld ar y safle. Mae giachod wedi'u gweld ar y safle ac mae'r ardaloedd o gynefinoedd gwlyptir sy'n gysylltiedig â'r ffosydd corsiog mewn caeau a'r glaswelltir brwynog yn debygol o ddarparu safleoedd gaeafu pwysig i'r adar hyn ac adar hirgoes eraill.

Mae afon Tywi wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) ac yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:

- 1103 Gwangen *Alosa fallax*

Ceir poblogaeth silio fawr o wangod *Alosa fallax* yn Nhywi, de Cymru, ac ystyrir ei fod yn hunangynhaliol. Ceir safleoedd silio ar hyd rhannau isaf yr afon rhwng Caerfyrddin a Llangadog, gyda'r rhan fwyaf o silio yn digwydd i lawr yr afon o Landeilo. Ystyrir bod ansawdd a swm y dŵr yn ddigonol i gynnal y rhywogaeth hon sy'n agored i niwed yn rhyngwladol, ac nid oes unrhyw rwystrau anhreiddiadwy ar hyd y llwybr mudo, er y gallai un gored ym Manorafon fod yn rhwystr yn ystod amodau llif isel. Mae presenoldeb cronfa ddŵr Llyn Brianne yn y blaenddyfroedd yn rhoi'r potensial i drin llif yr afon i gynorthwyo mudo gwangod.


- 1355 Dyfrgi *Lutra lutra*

Afon Tywi yw un o afonydd gorau Cymru am ddyfrgwn *Lutra lutra*. Ceir arwyddion toreithiog o ddyfrgwn, a gwelir hwy yn gyson ar yr afon. Mae ansawdd y dŵr yn gyffredinol dda ac mae cyflenwad digonol o fwyd. Mae mannau gorwedd addas ar hyd glan yr afon, ond prin yw'r safleoedd magu hysbys ar y brif afon, er bod cenawon wedi'u gweld.

Mae presenoldeb Rhywogaethau Atodiad II yn nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis safle

- 1095 Llysywen bendoll y môr *Petromyzon marinus*
- 1096 Llysywen bendoll y nant *Lampetra planeri*
- 1099 Llysywen bendoll yr afon *Lampetra fluviatilis*
- 1102 Herlyn *Alosa alosa*
- 1163 Penlletwad *Cottus gobio*

Dynodiad SoDdGA: [Dogfen OCR \(cyfoethnaturiol.cymru\)](http://Dogfen OCR (cyfoethnaturiol.cymru))



Title: Brownhill Priority habitat

Date: 7 November 2022

Author: Miriam Jones-walter

Scale @ A4: 1:12,500

Sites of Special Scientific Interest (Wales)

 Sites of Special Scientific Interest (Wales)

Special Areas of Conservation (Wales)

 Special Areas of Conservation (Wales)

 INV_SCPTDATA

 Brownhills_Mem...



Mae'r map hwn yn dangos ardaloedd cynefin â blaenoriaeth sy'n bresennol ar y safle:

Mae afon Tywi yn ACA/SoDdGA

Mae'r ardaloedd â llinellau brown yn dynodi cynefin glaswelltir lled-naturiol a byffer o 25m o amgylch coed hynafol. I nodi, mae rhywfaint o hyn y tu allan i ardal y prosiect.

Mae'r ardal â llinellau gwyrdd yn cynnwys glaswelltir wedi'i wella'n wael o ran rhywogaethau

Tirwedd

Mae'r safle yn dod o fewn ardal gymeriad tirwedd Dyffryn Tywi¹ ac ardal tirwedd hanesyddol² gyda thraddodiad amaethyddol cryf. Mae'r canlynol yn grynodedb o'r nodweddion tirwedd hanesyddol:

O Llanymddyfri i Gaerfyrddin, mae'r afon iseldirol hon yn ymdroelli ar orlifdir llydan ond cyfyngol. Mae Afon Tywi yn olygfaol ac yn ecolegol eithriadol. Mae'r priddoedd llifwaddodol wedi cynhyrchu bywoliaeth dda i genedlaethau o ffermwyr.

Mae patrwm rheolaidd o gaeau, wedi'u hamgáu gan wrychoedd gyda llawer o goed yn y gwrychoedd. Mae'r dyffryn wedi cael ei ddefnyddio fel coridor trafniadaeth ers y cyfnod cynhanesyddol. Mae nifer o drefi hanesyddol mewn mannau pontio a thref sirol fwy, Caerfyrddin, gyda ffyrdd prysur cysylltiedig ac ehangladau modern.

Yn hanesyddol roedd y dyffryn yn cael ei warchod gan gyfres o amddiffynfeydd, o gestyll carreg i fwntau syml a bryngaerau cynhanesyddol hynafol a gwersylloedd Rhufeinig. Mewn cyfnod mwy heddychlon roedd ei harddwch yn denu'r uchelwyr cyfoethog a sefydlodd barcdiroedd a phlastai yn edrych dros y dirwedd. Mae Dyffryn Tywi wedi denu artistiaid a beirdd fel John Dyer. Roedd rhannau isaf yr afon yn arfer bod yn fordwyol, ac felly'n gysylltiedig â masnach, cyfathrebu a thrafnidiaeth. Heddiw mae'r afon yn cael ei dathlu ar gyfer pysgota chwaraeon ac mae'n gysylltiedig â physgota cwrwgl.

208 Ystrad Tywi: Mae ardal gymeriad Llangadog-Llanymddyfri yn cynnwys gorlifdir a llethrau isaf dyffryn Tywi. Mae ffermydd mawr gwasgaredig a system gaeau reolaidd yn nodweddu'r ardal. Mae coed nodedig yn rhoi golwg parcdir i'r dirwedd




Nid oes unrhyw olygfeydd amlwg oherwydd y gwrychoedd niferus a dim ond o ochrau pellaf y dyffryn y gellir gweld y safle cyfan.

¹ ncca41-tywi-valley-description.pdf (cyfoethnaturiol.cymru)

² [Archaeology in Wales - Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed - Dyfed Archaeological Trust](https://www.dyfedarchaeology.org.uk/) (dyfedarchaeology.org.uk)

Amgylchedd Hanesyddol

Ynghyd â'r ardal tirwedd hanesyddol a ddisgrifir uchod, mae cwrs ffordd Rufeinig yn croesi'r safle. Mae'r safle'n rhan o stad hanesyddol Abermarlais a nifer o goed hynafol arwyddocaol.



Mae'r map ar y chwith yn dangos rhan o fap yr Arolwg Ordnans o 1888-1913.

Mae'r map ar y dde yn fap arolwg ordnans heddiw, gyda chwrs y ffordd Rufeinig wedi'i nodi mewn oren a'r coed arwyddocaol (gwyrdd) o fewn ffin y safle (glas).

Mae'r gymhariaeth yn dangos sut mae cwrs yr afon wedi newid yn sylweddol ac nid yw rhai o'r ffiniau caeau hanesyddol bellach yn bresennol.

Pridd

Mae'r tir yn gysgodol gyda maetholion pridd canolig i gyfoethog ac yn llaith i leithder pridd ffres.

Mae arolwg pridd Cymru a Lloegr yn nodi'r canlynol ynghylch y priddoedd. Caiff hyn ei gadarnhau'n fras gan ymchwiliad ar y safle i'r priddoedd ac mae'n golygu bod y priddoedd yn addas ar gyfer amrywiaeth eang o rywogaethau coed. Mae gan gyflwyno coetir a chael gwared ar fewnbynnau amaethyddol ac aflonyddu ar y tir y potensial i leihau rhai o'r risgiau i ansawdd dŵr a nodir gan y math o bridd.

Priddlun 12:

Priddoedd gorlifdir sy'n draenio'n rhydd

Gwead: Priddgleiog

Cwmpas: Lloegr: 0.6% Cymru: 1.8% Cymru a Lloegr: 0.7%

Draenio: Yn draenio'n rhydd

Ffrwythlondeb: Cymedrol i uchel



Cynefinoedd: Glaswelltir; coetiroedd ffen gwlyb mewn hen ystumiau afonydd


Gorchudd tir: Glaswelltir, peth tir âr

Carbon: Isel

Yn draenio i: Dŵr daear lleol sy'n bwydo i'r afon

Gwarchod dŵr: Mae tablau dŵr daear yn fas ac felly'n agored i lygryddion trwytholch fel nitrad a phlalladdwyr. Gall llifogydd mewn caeau amaethu sgwrio uwchbridd a chynyddu silt yn yr afon

Cnydio cyffredinol: Potensial cynydio wedi'i bennu gan y perygl o lifogydd; mae'r priddoedd yn nodweddiadol heb gerrig ac yn cynnwys cyflenwadau mawr o ddŵr sydd ar gael; potensial ar gyfer ystod eang o



gnydau gan gynnwys grawnfwydydd, gwreiddlysiau a thatws ond gall llifogydd gyfyngu tir i laswellt.

Dŵr


Mae nodweddion gorlifdir gweithredol megis ystumllynnoedd a sianeli afonydd sy'n cynnal Carreg Wern a dyfroedd llonydd yn bresennol.

Mae'r safle o fewn ffiniau'r Tywi (SoDdGA ac ACA). I'r Dwyrain o'r brif afon mae'r tir wedi'i adael yn fraenar ac mae'n datblygu fel coetir glannau wedi'i adfywio'n naturiol.

Mae llawer o'r safle mewn perygl uchel neu ganolig o lifogydd o'r afon.

O gynllun rheoli'r ACA:


Yn nalgylch Tywi, amaethyddiaeth yw'r ffynonellau mwyaf arwyddocaol o lygredd gwasgaredig a siltio, gan gynnwys dŵr ffo gwrtaith, tail da byw, elifiant silwair ac erydiad pridd o dir wedi'i aredig. Gall yr ardaloedd a ddefnyddir fwyaf fel pyrth a thraciau sydd wedi'u sathru'n drwm fod yn ffynonellau arwyddocaol iawn o ddŵr ffo sy'n llygru.



Pobl

Mae ychydig o eiddo a busnesau yn ffinio â'r safle ar ochr arall yr A40 ac mae nifer o dirfeddianwyr cyfagos. Mae tri phentref cyfagos, Llangadog, Llanwrda a Llansadwrn.

Nid oes mynediad cyhoeddus i'r tir ar hyn o bryd ac, yn yr ardal hon, mae mynediad cyhoeddus i'r afon Tywi yn gyfyngedig. Mae gan nifer o hawliau tramwy cyhoeddus y potensial i gysylltu â'r safle, fodd bynnag nid yw'r safle yn elwa o fynediad uniongyrchol i gerddwyr gan unrhyw un o'r pentrefi lleol. Mae llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus i'r safle yn gyfyngedig.



Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Title: **Brownhill adjacent PROW**

Date: 25 October 2022

Author: Miriam Jones-walter





Scale @ A4: 1:20,000

Public Rights of Way

Public Rights of Way

Newid Hinsawdd

Mae rhagamcanion newid hinsawdd yn dangos bod y safle'n debygol o ddod yn gynhesach a sychach yn y dyfodol. Disgrifir parth hinsoddol yr ardal hon o Gymru ar hyn o bryd fel 'cynnes a llaith'. Mewn senarios allyriadau uchel bydd parth hinsoddol 'Cynnes a sych' yn dominyddu llawer o iseldir Cymru. Mae hyn yn newid y mathau o lystyfiant sy'n debygol o gael eu cynnal yn yr ardal. Rhagwelir hefyd y bydd achosion o dywydd eithafol yn cynyddu. Mae hyn yn debygol o olygu cynnydd yn amllder a difrifoldeb digwyddiadau llifogydd ar y safle hwn.



Canlyniadau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus

Cam Un

Ym mis Mawrth 2022 fe wnaethom gynnal ymgynghoriad i hysbysu'r cyhoedd am ein cynlluniau ar gyfer y safle a rhoi cyfle i bobl godi pryderon, cwestiynau a syniadau. Cynhaliwyd hyn drwy ymgynghoriad ar-lein ar ofod i ddinasyddion a digwyddiad galw heibio yn neuadd bentref Llangadog. Fe wnaethom hefyd gysylltu'n uniongyrchol â chymdogion y safle a rhanddeiliaid allweddol. Hysbysebwyd yr ymgynghoriad trwy ddatganiad i'r wasg a sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Cawsom gyfanswm o 117 o ymatebion, trwy gyfuniad o gyfryngau: ar-lein (drwy ofod dinasyddion), yn ein digwyddiad galw heibio a thrwy e-bost a llythyr. Cawsom 68 o ymatebion i'r arolwg a roddodd gyfle i fewnbynnu sylwadau 'testun rhydd', roedd y gweddill yn sylwadau cyffredinol am y cynlluniau.

Cyfeiriodd y gyfran fwyaf o ymatebion at fioamrywiaeth fel y peth pwysicaf i'w ystyried wrth greu coetir newydd. Cawsom amrywiaeth o gyfraniadau ynglŷn â sut y gellid cyflawni hyn, megis trwy greu cynefin gwlyptir, adfer gwrychoedd a phlannu rhywogaethau sydd o fudd i bryfed peillio. Roedd nifer o ymatebwyr yn bryderus ynghylch cyflwyno mynediad cyhoeddus i'r safle a'r tarfu ar fywyd gwyllt (a da byw cyfagos) gan weithgareddau hamdden a chŵn.

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys y posibilrwydd o blannu perllan, neu greu llwybr 'bwytdwy' drwy'r coetir. Roedd nifer o sylwadau'n awgrymu y gallai rhywfaint o'r safle gael ei ddefnyddio ar gyfer tyfu cymunedol.

Codwyd nifer o faterion.

- Disodli cynhyrchiant amaethyddol o dir 'da' oedd y pryder a godwyd amlaf. Roedd hyn yn canolbwyntio ar y caeau sydd wedi'u gwella fwyaf i'r Gogledd o'r safle er bod rhai ymatebwyr yn bryderus ynghylch greu coetir ar unrhyw ran o'r tir.
- Hygyrchedd y safle. Mae mynediad i gerddwyr o boblogaethau cyfagos wedi'i gyfyngu gan yr A40 brysur ac mae'r safle'n gofyn am deithio mewn car. Codwyd y potensial ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig os caiff maes parcio ei greu, codwyd y ddarpariaeth o finiau a thoiledau.
- Codwyd cwestiynau ynghylch rheoli ceirw a'r potensial i'r safle annog mwy o geirw i groesi'r A40 o goetir cyfagos.

Amcanion

O ganlyniad i'r adborth a dderbyniwyd yng ngham un o'r ymgynghoriad cyhoeddus, rhannwyd y safle yn dri maes, a bydd pob un ohonynt ychydig yn wahanol fel y nodir yn yr amcanion a ganlyn.

Ardal Un – Man cadwraeth


- a. Coetir glannau afon a gwlyb gyda chyn lleied o ymyrraeth â phosibl yn bennaf er budd bioamrywiaeth ac i hyrwyddo gorlifdir actif iach.
- b. Nodi ardaloedd lle gall y cyhoedd gael mynediad diogel i'r afon gyda chyn lleied o aflonyddwch â phosibl gan alluogi bywyd gwylt i ffynnu.
- c. Gwella pwyntiau mynediad i'r afon a sicrhau bod pysgotwyr yn gallu parhau i gael mynediad diogel i'r gofod.

Ardal Dau – Gofod Coetir

- a. Creu coetir llydanddail brodorol sy'n cynyddu amrywiaeth cynefinoedd.
- b. Gofod myfyriol a choffaol sy'n hygyrch i bawb.
- c. Creu adnodd gwyrdd at ddefnydd y gymuned.

Ardal Tri - Gofod Tyfu

- a. Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cyfleoedd cynaliadwy i dyfu bwyd, coed a gwella natur.
- b. Cynyddu gorchudd coed i ddangos sut y gellir cyflawni mentrau plannu'r llywodraeth helpu i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur ochr yn ochr â defnyddiau tir eraill.
- c. Gwella ansawdd dŵr, iechyd y pridd ac amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau.



Canlyniadau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus

Cam Dau

Mewn ymateb i'r adborth cychwynnol, fe wnaethom gynnal ail rownd o ymgynghori. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar gyfer cam dau ar y caeau mwy cynhyrchiol a oedd yn bresennol ar y safle, sef yr ardal a alwyd gennym yn 'fan tyfu' i fynd i'r afael â'r pryder allweddol a godwyd ynghylch disodli tir amaethyddol â choetir.

Cawsom 18 o ymatebion i'r arolwg a roddodd gyfle i fewnbynnu sylwadau 'testun rhydd' am y cynlluniau. Roedd y rhain ar-lein (drwy ofod dinasyddion), trwy e-bost a llythyr, ac wyneb yn wyneb yn ystod sesiwn 'galw heibio' a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf yn Ystafell Ddarllen Llansadwrn. Hysbysebwyd yr ymgynghoriad trwy ddatganiad i'r wasg i'r cyfryngau lleol a sianeli cyfryngau cymdeithasol CNC lle cafodd ei rannu â phartneriaid. Gosodwyd arwyddion yn hysbysebu'r sesiwn galw heibio a'r ymgynghoriad hefyd yn y neuadd gymunedol yn Llansadwrn, gyda chod QR yn cysylltu â'n gwefan. Cysylltwyd â phawb a gymerodd ran yng nghan 1 yr ymgynghoriad trwy e-bost neu lythyr gyda gwahoddiad i gymryd rhan.

Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o wrthwynebiad i greu coetir ar y tir, ond roedd y rhan fwyaf o'r adborth o'r rownd gyntaf o ymgynghori yn nodi cefnogaeth gyffredinol i'r amcanion a osodwyd ar gyfer 1, y "Gofod cadwraeth" a 2, y "Gofod coetir". Byddwn yn edrych ar ddyluniad yr ardaloedd hyn i sicrhau bod mynediad cyhoeddus a gofod ar gyfer bywyd gwyllt yn ategu ei gilydd. Yn y tymor hwy byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o wneud y safle yn fwy hygyrch heb gar.

Ar gyfer y "Gofod Tyfu" Fe gyflwynom sawl 'opsiwn' ar gyfer cynyddu gorchudd coed ochr yn ochr â chynhyrchu amaethyddol parhaus a gofynnwyd i'r ymgynghorai drafod y manteision amrywiol y gallai'r opsiynau hyn eu cyflwyno a pha rai yr hoffent eu gweld yn cael eu sefydlu ar y safle.

Yn yr un modd â cham un, pleidleisiwyd mai amrywiaeth cynefinoedd oedd y budd pwysicaf y gellid ei gyflawni gan y gwahanol opsiynau ar gyfer gorchudd coed. Dilynwyd hyn gan liniaru newid hinsawdd, ac yn diddorol cynnyrch pren/coed a da byw oedd y lleiaf pwysig.

Porfa goed a 'gwrychoedd mega' oedd y dewisiadau mwyaf poblogaidd gyda 'thyfu cymunedol/rhandiroedd' yn derbyn y nifer lleiaf o bleidleisiau. Dylid nodi bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng yr opsiynau, gyda pharcdir (sef yr ail leiaf poblogaidd) yn fath o ddefnydd tir tebyg i dir pori coed (mwyaf poblogaidd). Mae'n bosibl bod y ffaith bod porfa goed yn opsiwn mwy




Opsiynau (clocwedd o'r chwith uchaf): Mewnlenwi corneli caeau, parcdir, perllannau, rhandiroedd/tyfu cymunedol, porfeydd coediog, grwpiau o goed cae, coetir di-dor a gwrychoedd 'mega'.

poblogaidd yn deillio o'r cysylltiad ag amaethyddiaeth yn erbyn y cysylltiadau addurniadol mwy ffurfiol sy'n dod gyda pharcdir.


Cynllun Coetir

Mae'r mapiau canlynol yn nodi'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd a ddisgrifir uchod. Mae'r holl wybodaeth yn y ddogfen hon wedi'i dwyn ynghyd i gynhyrchu'r cynlluniau ar gyfer pob ardal.


Nodweddion Allweddol/Cyfngiadau: Gofod Coetir




Cyfleoedd: Gofod Coetir




Nodweddion Allweddol/Cyfyngiadau Mannau Cadwraeth




Cyfleoedd Mannau Cadwraeth



Nodweddion Allweddol / Cyfyngiadau Gofod Tyfu



Cyfleoedd Gofod Tyfu



Presgripsiynau Gofod Tyfu

 Semi natural grassland management	I'w reoli fel tir pori parhaol heb unrhyw fewnbynau a phori cymysg. Ei gynnal fel glaswellt a brwyn trwy bori. Torri dim mwy na thraean o arwynebedd y brwyn ym mhob cae bob blwyddyn mewn cylchdro. Peidio â thorri rhwng 15 Mawrth a 1 Awst. Cynnal uchder glastir lle mae 80% o'r gweiriau (ac eithrio brwyn) rhwng 5 a 30cm. Rhaid rheoli'r tir heb wrtaith anorganig neu organig (gan gynnwys tail buarth) ac ni ddylid ei aredig na'i drin nac yn destun unrhyw waith draenio. Peidiwch â llyfnu na rholio rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin. Rhaid i leiafswm o 30% o'r unedau da byw (LUs) fod yn wartheg pori ym mhob blwyddyn galendr a rhaid i leiafswm o 15% o'r unedau da byw fod yn ddefaid pori ym mhob blwyddyn galendr. Dim bwydo atodol.
 Hay meadow management	Fel uchod. Yn ogystal, cau'r ddôl rhag pori cyn 15 Mai. Rhaid cau dolydd am o leiaf 10 wythnos. Peidio â thorri cyn 8 Gorffennaf. Rhaid gadael o leiaf 5% o ddolydd gwair heb eu torri bob blwyddyn. Rhaid peidio â phori adladdau gweirglodd tan o leiaf 4 wythnos ar ôl y toriad. Cynnal uchder glastir adladd lle mae 80% o'r gweiriau rhwng 5 a 15cm.
 Improved grassland	I'w reoli fel tir pori parhaol gyda mewnbwn isel a phori cymysg. Cynnal fel glaswellt. Peidio â rhoi mwy na 50Kg/Hectar nitrogen y flwyddyn fel gwrtiaith anorganig. Lle taenir tail buarth, naill ai ar ei ben ei hun neu yn ychwanegol at wrtaith anorganig, ni ddylai cyfanswm y gyfradd nitrogen fod yn fwy na 100Kgs/Hectar nitrogen y flwyddyn galendr. Cynnal glastir gydag amrywiaeth o uchder yn ystod y tymor tyfu. Rhaid i o leiaf 20% o'r glastir fod yn llai na 7cm a rhaid i o leiaf 20% fod yn fwy na 7cm i ganiatáu i blanhigion flodeuo ac i ddarparu cynefin mwy amrywiol. Peidiwch â thocio ar unrhyw adeg, ac eithrio mewn clytau i reoli chwyn niweidiol (hy, ysgall y maes a marchysgall, tafol cyrliog a llydanddail neu lysiau'r gingroen). Posibilrwydd o docio brwyn ar ôl 15 Gorffennaf. Dim bwydo atodol. Peidio llyfnu na rholio rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin.
Pob ardal	Ni ddylid defnyddio chwynladdwyr yn unman oni bai bod chwyn hysbysadwy neu rywogaethau goresgynnol ymledol fel ysgall y waun, ysgall y maes, tafol crych, tafol llydanddail, llysiau'r gingroen, canclwm Japan, rhododendron, neu ffromlys chwarennog, yn cael eu trin a'u rheoli. Os bydd canclwm Japan a ffromlys chwarennog yn digwydd neu'n cytrefu o fewn y coridor.

Egwyddorion Dylunio

Bydd dyluniad y coetir yn dilyn egwyddorion Safon Coedwigaeth y DU. Bydd y plannu yn dilyn yr egwyddorion hyn er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r amcanion a nodir uchod, ynghyd ag ystyried y mewnbwn a gawsom drwy gydol y broses ymgynghori hyd yn hyn:

- Bydd yr ardaloedd o gynefin â blaenoriaeth yn cael eu cynnal a'u rheoli i wella eu gwerth cynefin.
- Bydd coed aeddfed presennol yn cael eu clustogi o'r plannu. Bydd yr holl gyrsiau dŵr yn cael eu diogelu gyda byffer o 20m rhwng y glannau a'r plannu coed.
- Bydd y mannau agored yn cael eu rheoli i greu ymyl graddedig i gynefin coetir y dyfodol, bydd hyn yn creu rhwydwaith cyfoethog o gynefinoedd ar draws y safle.
- Caniateir i wrychoedd presennol ledi a thewychu. Yn y 'Gofod Tyfu' bydd cloddiau newydd yn cael eu sefydlu i adfer y ffiniau caeau hanesyddol. Bydd y rhain yn wrychoedd llydan, yn cael eu caniatáu i aeddfedu i gynhyrchu cynnyrch posibl (fel pren a phorthiant), gan ddarparu buddion ar gyfer stoc (cysgod), tra'n cadw patrwm caeau hanesyddol a chymeriad bugeiliol y tir.
- Yn y gofod tyfu, bydd corneli caeau yn cael eu plannu a bydd grwpiau o goed mewn cae yn cael eu sefydlu, gan gynnal naws "parcdir" y dirwedd a sicrhau olyniaeth coed hynafol ar gyfer y dyfodol, gan wella cymeriad tirwedd y dyffryn.
- Mae rhywogaethau coed wedi eu dewis i weddu i amodau'r safle nawr ac yn y dyfodol wrth i'r hinsawdd newid a chynyddu amrywiaeth rhywogaethau ar draws y safle ac yn y dirwedd o'i amgylch. Mae'n hysbys bod mwy o amrywiaeth yn cynyddu ymwrthedd i aflonyddwch, megis newid yn yr hinsawdd, digwyddiadau tywydd eithafol (fel sychder) a phlâu a chlefydau.
- Bydd cymeriad y safle yn newid dros amser, ond bydd ardaloedd agored yn cael eu cynnal fel bod amrywiaeth cynefinoedd ar draws y safle a golygfeydd yn cael eu cadw.
- Mae asesiad risg cynefinoedd wedi'i gynnal i sicrhau nad yw'r holl weithrediadau sy'n gysylltiedig â chreu a sefydlu coetir yn peryglu effeithiau negyddol ar SoDdGA ac ACA Afon Tywi.

Cymysgedd Rhywogaethau

Rhywogaethau coed	Llwyni
- Derw Mes Coesynnog - Oestrwydden - Ceirios gwyllt - Ceirios yr Adar - Poplys Du - Pisgwydd dail bach - Cnau Ffrengig Cyffredin - Llwyfen Lydanddail - Cerddinen wyllt	- Afalau surion - Collen - Draenen Wen - Gwifwrnwydden y gors - Eirin bwlas - Masarnen y maes

Amserlen

Isod mae amlinelliad bras o'r camau nesaf ar gyfer y safle.

Tachwedd 2022 i Ebrill 2023	Plannu cychwynnol ar y safle, gan gynnwys cyfleoedd plannu gwirfoddol. Cwblhau dyluniad mynediad a chwblhau gwaith paratoi. Gwneud gwaith sefydlu arall megis tynnu hen ffensys a ffensio gwrychoedd sydd newydd eu plannu.
Mai 2023 i Hydref 2024	Prydles pori tymor byr ar gyfer Gofod tyfu yn unol â chyfarwyddiadau. Gwneud gwaith sefydlu megis chwynnu, rheoli rhywogaethau ymledol Dechrau gwaith seilwaith mynediad, mynedfa, maes parcio a llwybrau troed yn y coetir. Ymarfer tendro ar gyfer partneriaeth hirdymor gyda'r Gofod tyfu, gan gynnwys cyd-ddylunio pellach.
Tachwedd 2023 i Ebrill 2024	Gweddill y plannu ar y safle a rhodfeydd plannu blwyddyn 1 (ailosod coed coll). Gwneud gwaith sefydlu arall fel ffensio gwrychoedd sydd newydd eu plannu a grwpiau o goed yn y caeau a gwaith ychwanegol y cytunwyd arno fel rhan o gyd-ddylunio, hefyd creu pyllau a mannau gwlyb.
Mai 2023 ymlaen.	Dechrau cytundeb partneriaeth hirdymor. Parhau â gwaith sefydlu ac ôl-ofal.